

Ymgynghoriad cyhoeddus ar Wasanaethau Dwyieithog cyn y broses ddeddfu

Tystiolaeth gan Simon Moseley

Annwyl Ms Spiller,

Sylwadau cyffredinol yn unig sydd gen i am y drafft yma. I ddechrau, rwy'n ei gefnogi gan ei fod yn rhoi statws uwch cyfreitihol i'r iaith Gymraeg. Mae'n rhoi arweiniad ac esiampl o ymarfer da cydraddoldeb ieithyddol, a chanllaw clir i bawb ym mywyd cyhoeddus Cymru. Mae diffygion sylweddol darpariaeth gwasanaethau dwy-ieithog ym mywyd pob dydd pobl Cymru - ble mae gwir ddewis a chyraddoldeb ieithyddol ar lawr gwlad yn brin. Mae'r Mesur Iechyd Meddwl yn engraifft ble gall bethau fod yn well - ymgynghoriaeth cyhoeddus drwy'r Saesneg yn unig, dim statws clir i'r iaith Gymraeg i bobl mwya bregus yn ein cymdeithas - h.y. unwaith eto yn weithredol, mae'r cyfrifoldeb am ofyn am y Gymraeg ar y defnyddiwr, dim ar y darparwr (ychydig iawn sy'n gwneud wrths gwrs). Mae angen canllawiaeth clir ar y gwasanaeth sifil yn Nghyrmu i gyd-ymffurfio gyda deddfwriaethu mewn gwlad ble mae statws cydraddol i ddwy-iaith - y Gymraeg a'r Saesneg.

Diolch am eich sylw

Yr eiddoch yn gywir,

Dr Simon Moseley